# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Dros Dro - Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Oedolion<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cyngorwyr Kenneth Hughes Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, G.O Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Cyfreithiwr Llywodraethiant Corfforaethol (MY), Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth Wyn Williams (Newyddiadurwr Democtratiaeth Leol) |

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI.**

Nid oedd dim materion brys i adrodd arnynt.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2020 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2020 yn gywir.**

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr, 2020 a mis Gorffennaf, 2021 a nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitem 4 - Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru - eitem newydd ar gyfer cyfarfod 14 Rhagfyr, 2020
- Eitem 9 - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20 - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 25 Ionawr, 2021
- Eitem 10 - Cwrs Golff Llangefni - yn amodol ar gadarnhad - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 25 Ionawr 2021.
- Eitem 27 - Cyflwyno Galw Gofal - Taliadau Cyswllt Gofal ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor - eitem wedi'i hailraglennu ar gyfer cyfarfod 22 Mawrth, 2021
- Cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith wedi ei gadarnhau ar gyfer 17 Rhagfyr, 2020 i ystyried Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Llangefni.

Yn ogystal, bydd y trefniadau ar gyfer galw cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith i ddelio â phroses gosod Cyllideb 2021/22 rhwng Ionawr a Mawrth, 2021 yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd cadarnhau'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr, 2020 a mis Gorffennaf, 2021 fel y'i cyflwynwyd.**

## 5 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2020/21.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor a rhoddodd drosolwg o berfformiad yn ystod y chwarter. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a grëwyd gan y pandemig Coronafeirws a welodd y Cyngor yn addasu'r ffordd y mae'n gweithio i ymateb i'r argyfwng, gan gynnwys darparu gwasanaethau newydd tra hefyd yn cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol, cynnal busnes fel arfer lle bo modd, a sicrhau iechyd a diogelwch, roedd mwyafrif (88%) y dangosyddion perfformiad sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn dan y Cynllun CAG). Mae hwn yn ganlyniad calonogol yng nghyd-destun blwyddyn sydd wedi bod ymhell o fod yn un normal.

Rhoddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, atborth o drafodaethau'r Pwyllgor ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd, 2020. Ar ôl cydnabod a mynegi gwerthfawrogiad o ymdrechion ac ymrwymiad gweithlu'r Cyngor yn ystod y cyfnod, roedd y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar bocedi o danberfformiad yn y Gwasanaethau Tai, Cynllunio a Phlant a Theuluoedd a cheisiodd sicrwydd bod y materion penodol a godwyd yn cael sylw. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r camau lliniaru a gyflwynwyd ac fel yr eglurwyd hwy gan yr aelodau Portffolio a Swyddogion yn y cyfarfod ac roedd yn hapus felly i argymell adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 2 i'r Pwyllgor Gwaith.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yr agweddau cadarnhaol niferus yr oedd y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 2 yn eu hadlewyrchu ac amlygodd strategaeth ddigidol y Cyngor fel maes sydd wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig oherwydd cau swyddfeydd y Cyngor ac ailagor agor rhai gwasanaethau'n ofalus

ar ôl y cyfnod clo. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd ‘newid i wasanaeth digidol’ yn dangos perfformiad gwell nag yn y blynyddoedd blaenorol. At hynny, ni fu unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â materion gwasanaethau cwsmer ac roedd nifer y cwynion ar ddiwedd Chwarter 2 (17) yn hanner yr hyn a gofnodwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2019/20 (35). Mae hyn yn arbennig o gadarnhaol ar adeg pan ddarparwyd llawer o wasanaethau i drigolion Ynys Môn mewn ffordd wahanol i'r arfer ac mae'n dangos hefyd bod darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Gan gytuno bod yr adroddiad yn galonogol o ystyried y cyd-destun, ychwanegodd y Pwyllgor Gwaith ei ddiolchiadau i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled yn cynnal lefelau perfformiad yn gyffredinol. Gan gyfeirio at Ddangosydd 35 (nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety yr oedd modd eu gosod (ac eithrio rhai anodd eu gosod) a Dangosydd cysylltiedig 36 (Gwasanaethau Landlord: canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag), dywedodd yr Is-Gadeirydd, er ei fod yn cydnabod bod amgylchiadau eithriadol a allai egluro'r perfformiad islaw'r targed yn y meysydd hyn oherwydd bod staff y Gwasanaeth Tai wedi bod yn rhan o'r ymateb i'r argyfwng, yr hoffai weld gwelliant yn y dangosyddion hyn yn y flwyddyn newydd ac y byddai'n croesawu cael dadansoddiad manylach o sut y gellid cyflymu'r broses gosod tai, a hynny o gofio’r angen lleol am dai.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau, fod y drafodaeth hon eisoes yn digwydd yn y Gwasanaeth Tai a bod dadansoddiad manylach ar y gweill. Yn y cyfamser mae unedau tai yn parhau i gael eu gosod. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y byddai mwy o wybodaeth ar gael yn Chwarter 3 a bod Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal archwiliad o'r broses gosod tai.

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, esboniad am y tanberfformiad o ran rhai agweddau ar y Gwasanaethau Cynllunio, gan nodi bod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cyfrannu at fethu targedau ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio ac ymchwilio i achosion gorfodaeth yn amserol, ond bod cynnydd yn cael ei wneud nawr. Yn achos apeliadau cynllunio a wrthodwyd, mae'r niferoedd y mae'r dangosydd yn berthnasol iddynt yn fach a'r rheswm am y tanberfformio yw oherwydd bod tair allan o chwe apêl wedi eu cadarnhau. Bwriedir cael trafodaeth gyda’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau / dehongliad swyddogion o geisiadau er mwyn gostwng nifer yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch2 2020/21, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**

**6 MABWYSIADU'R DDOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2020-22**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol am y deunaw 18 mis rhwng Hydref, 2020 a Mawrth, 2022 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn canolbwyntio ar y gwaith y bydd yr Awdurdod yn ei wneud i gyflawni dyheadau a osodwyd yng Nghynllun y Cyngor Sir am y cyfnod 2017-22.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor gan dynnu sylw at y ffaith bod y Ddogfen yn ymwneud â chyfnod o 18 mis yn hytrach na'r 12 mis arferol. Er bod drafftio’r ddogfen mewn cyfnod o newid ac ansicrwydd wedi bod yn heriol, y nod fu datblygu rhaglen waith sy’n uchelgeisiol, yn realistig ac yn gyraeddadwy. Gan roi ei bersbectif personol, nododd yr Aelod Portffolio bod hyrwyddo economi'r Ynys trwy Fwrdd

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, cynyddu'r cyflenwad tai, moderneiddio ysgolion a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn feysydd allweddol yn ei farn ef. Mae'r Ddogfen Gyflawni hefyd yn cynnwys pedair rhaglen adfer thematig a fydd yn arwain y ffordd allan o'r pandemig ar gyfer adferiad economaidd, adfer cyrchfannau, adferiad cymdeithasol a chymunedol ac adferiad sefydliadol; bydd y rhaglenni manwl ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd, 2020 lle craffwyd ar Ddogfen Gyflawni 2020-22. Roedd y Pwyllgor wedi nodi amserlen estynedig y Ddogfen ac wrth gydnabod y cyd-destun ariannol heriol, roedd wedi trafod a cheisio sicrwydd ynghylch pa mor gyraeddadwy oedd y dyheadau a oedd ynddi. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ceisio deall y berthynas rhwng y Ddogfen Gyflawni a'r pedair rhaglen adfer o ran gweithredu ac amserlenni. Ar ôl clywed y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Aelodau Portffolio a Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell y Ddogfen Gyflawni i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion trwy'r Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor i gyflawni'r dasg o gwblhau drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020/22 ac argymell bod y Cyngor Llawn yn ei mabwysiadu yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr, 2020.**

## 7 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, yn seiliedig ar wybodaeth hyd yma, fod y sefyllfa ariannol a ragwelir yn gyffredinol ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yn danwariant o £1.156m sef 0.81% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21. Er iddo groesawu'r perfformiad y mae'r prognosis wedi'i seilio arno, rhybuddiodd yr Aelod Portffolio y gall y sefyllfa newid yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn, yn enwedig o gofio effeithiau parhaus y pandemig Coronafeirws, ac yn enwedig yr ansicrwydd ynghylch pa bryd y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn dychwelyd i'r drefn arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £232m hyd yma i gynghorau yng Nghymru gwrdd â chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â delio â'r pandemig a'r incwm a gollwyd yn sgil cau gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel, wrth ystyried yr adroddiad, yn teimlo ei fod yn darparu datganiad clir a hunanesboniadol o'r sefyllfa yn Chwarter 2 a nododd a chroesawodd y Panel y perfformiad cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd y Panel yn pryderu am yr ansicrwydd i'r dyfodol gan gynnwys y diffyg eglurder ynghylch cyllid y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd i ddod.

Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 â'r Pwyllgor Gwaith trwy'r amrywiadau gwasanaeth sylweddol yn Chwarter 2, gan nodi bod disgwyl tanwariant o £1,595k yn y cyllidebau gwasanaeth oherwydd llai o alw am Wasanaethau Plant ac effaith cau ysgolion yn ystod y cyfnod Ebrill i Orffennaf, 2020 ar gyllidebau addysg ganolog. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru I ddigolledu am incwm a gollwyd wedi'i gynnwys yng nghyfrifiadau Chwarter 2 ac mae hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa well, yn enwedig o ran y Gwasanaeth Hamdden. Roedd disgwyl i nifer yr hawliadau am gymorth dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor godi'n sylweddol o ganlyniad i'r dirywiad economaidd yn sgil Covid - 19 ac er i'r haf weld cynnydd yn nifer yr hawlwyr mae'r sefyllfa wedi sefydlogi ers hynny ac mae nifer yr hawliadau wedi gostwng. Er y credir bod estyn y Cynllun Ffyrlo wedi helpu i leddfu'r pwysau mwyaf ar y cynllun, mae nifer yr hawliadau 2.7% yn uwch nag ar

ddiwedd mis Mawrth, 2020 a bydd cost cwrdd â'r cynnydd yn nifer yr hawliadau yn disgyn ar y Cyngor. Mae incwm o'r Dreth Gyngor i lawr oddeutu 2% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; mae'r broses orfodaeth wedi ailddechrau ers hynny ond ni fydd effaith lawn peidio â thalu i'w gweld nes bod y broses casglu dyledion wedi'i chwblhau a hyd nes y bydd asesiad o ddyledion drwg wedi ei wneud.

O ran gwariant sy'n gysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Medi, 2020 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor hyd yma wedi hawlio £3.28m am gostau ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, ac mae Llywodraeth Cymru wedi talu £3.228m ohono. Mae'r balans sy'n weddill o £52k a ddangosir yn Nhabl 2 yr adroddiad bellach wedi'i dalu hefyd. Mae cais arall am 273k wedi'i gyflwyno ar gyfer mis Hydref, 2020. Mewn perthynas â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu am golli incwm o wasanaethau yn ystod y pandemig, mae balans o £591k ar ôl fel y gwelir yn nhabl 3 yr adroddiad. Fodd bynnag, dim ond ar adeg drafftio'r adroddiad y gwnaed yr hawliad ac fel arfer mae peth oedi rhwng cyflwyno cais a derbyn taliad. Gorffennodd y Swyddog trwy ddweud, er bod y sefyllfa ariannol yn galonogol ar gyfer y tymor byr iawn, fod y Cyngor yn awr yn mynd i chwarter heriol y gaeaf pan all, a phan fydd pwysau ar wasanaethau'n cynyddu - yn enwedig Gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad.**
- **Nodi monitro costau asiantaeth ac ymgynghoriaeth ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad.**

## 8 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y gwariant gwirioneddol hyd at 30 Medi, 2020 yn £10.521m yn erbyn gwariant a broffiliwyd o £13.688m, a hynny, i raddau helaeth, oherwydd effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar gynnydd a'r gallu i gwblhau rhai cynlluniau. Fodd bynnag, mae mwyafrif y prosiectau ar darged i gael eu cwblhau o fewn y gyllideb. Gan gyfeirio at y broses aildendro ddiweddar ar gyfer y contract Gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa, eglurodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y cytunwyd fel rhan o'r trafodaethau contract y byddai'r Cyngor yn ariannu costau cyfalaf y cerbydau newydd, sef cyfanswm o £4.449m. Bydd hyn yn cael ei ariannu trwy Fenthyca Digymorth y ceisir cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar ei gyfer, a bydd yn cynhyrchu cost refeniw blynyddol rhwng £550k a £650k (yn dibynnu ar hyd y benthyciad) y bydd yn rhaid ei chymryd i ystyriaeth yng nghyllideb 2021/ 22. Mae manteision defnyddio'r dull hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, y Cyngor a fyddai'n parhau i fod yn berchen ar y cerbydau pe bai methiant i gwrdd â'r contract ac felly byddai modd parhau i'w defnyddio i gynnal y gwasanaeth casglu gwastraff. Yn ail, gall y Cyngor ariannu prynu cerbydau ar gyfradd log is na'r contractwr sy'n golygu na fydd y costau benthyca yn cael eu trosglwyddo i'r trethdalwr.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel, wrth iddo ystyried sefyllfa gyfalaf Chwarter 2, wedi ymholi a fyddai'r oedi wrth symud

ymlaen â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn arwain at golli cyllid grant; roedd y Panel wedi ei fodloni gan sicrwydd nad dyna fyddai'r achos.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o'r tanwariant ar y rhaglen gyfalaf yn gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd wedi'i seibio hyd nes y ceir penderfyniad terfynol ar gyfluniad ysgolion yn ardal Llangefni, a'r Cyfrif Refeniw Tai lle mae'r pandemig wedi effeithio ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â thai. O ran y gweithgareddau tai, bydd y tanwariant ar wariant cyfalaf yn cario drosodd i'r flwyddyn nesaf ac yn achos y rhaglen moderneiddio ysgolion, mae llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caniateir i gyllid nas defnyddiwyd ar gyfer rhaglen Band A lle mae un cynllun yn weddill, gael ei gario drosodd i'r rhaglen Band B. Yn ogystal â'r oedi a achosir gan y pandemig, gall tywydd gwael dros y gaeaf hefyd rwystro cynnydd ar brosiectau cyfalaf.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn Chwarter 2.**
- **Cymeradwyo £4.449m o Fenthyca Digymorth mewn perthynas ag amodau'r Contract Gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa yn unol â pharagraff 3.3.1 o'r adroddiad.**

## 9 ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB Y CRT - CHWARTER 2, 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y sefyllfa refeniw ar gyfer yr ail chwarter yn dangos tanwariant o £324k. Mae'r incwm a ragwelwyd £100k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant £112k yn is na'r gyllideb wreiddiol. Mae gwariant cyfalaf £1,250k yn is na'r gyllideb broffiliedig ac mae'r gwariant a ragwelir £6,244k yn is na'r gyllideb. Mae'r diffyg a ragwelir felly (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £6,256k yn llai na'r gyllideb (gan ostwng y diffyg a gynlluniwyd i £823k) a hynny'n bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is nag a gyllidebwyd. Mae'r CRT yn gyllideb sydd wedi ei chyfyngu i ddibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohoni i'r Gronfa Gyffredinol.

**Penderfynwyd nodi'r isod –**

- **Y sefyllfa a amlinellwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2020/21.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.**

## 10 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2021/22

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chyfrifo'r sylfaen dreth ar gyfer 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y cyfrifiadau wedi'u gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau Treth Gyngor (CT1 v.1.0) 2021/22 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn amrywiol fandiau ar y rhestr brisio ar 31 Hydref, 2020 a'u bod wedi eu crynhoi gan yr Awdurdod o dan Adran 22b(7) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau'n cymryd i ystyriaeth ostyngiadau, eithriadau a phremiymau ynghyd â newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2021/22. Cyfanswm y sylfaen a

gynigiwyd ar gyfer 2021/22 at ddibenion gosod treth yw 31,548.20. Mae hyn yn cymharu â 31,532.53 ar gyfer 2020/21 ac mae'n gynnydd o 0.05%.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod dwy elfen i'r cyfrifiadau, sef Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cymorth Refeniw sy'n cynnwys yr holl eiddo Treth Gyngor safonol ond nad yw'n cynnwys addasiadau ar gyfer premiymau a gostyngiadau a roddwyd gan rai awdurdodau mewn perthynas â Dosbarthiadau A, B ac C. Cyfrifir bod y ffigwr hwn yn 30,880.22 sy'n ostyngiad o 0.15% ar ffigwr y flwyddyn flaenorol, sef 30,927.17 ac mae'r wybodaeth hon wedi'i hanfon at Lywodraeth Cymru. Yn ail, roedd cyfanswm y gostyngiad cyfwerth â band D a ddefnyddir at ddibenion gosod treth wedi'i addasu gan ddarpariaeth ar gyfer treth gyngor na fydd yn cael ei thalu, sy'n parhau i fod yn 1.5%, ac mae hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir bod y ffigwr fel y crybwyllir uchod yn 31,548.20 ac er ei fod wedi aros yn weddol sefydlog o 2020/21 mae'n gallu amrywio yn ystod y flwyddyn wrth i eiddo gael eu trosglwyddo o'r rhestr Dreth Gyngor ddomestig i'r rhestr cyfraddau busnes a hefyd wrth i anheddau gael eu prynu fel ail gartrefi lle codir premiwm ar eu cyfer. Mae nifer yr eiddo ar y rhestr Dreth Gyngor safonol wedi gostwng oherwydd cynnydd yn nifer yr ail gartrefi ac yn nifer yr eiddo gwag ac mae'r pandemig wedi cael effaith eleni ar allu pobl i osod, adnewyddu neu werthu eiddo sydd yn wag. Bydd adroddiad ar bremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr, 2020.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2021/22, sef 30,880.22 (Rhan E6 o Atodiad A yn yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2021/22 (Rhan E5 o Atodiad A yn yr adroddiad).**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrifo fel Sylfaen y Dreth am 2021/22 fydd 31,548.20 ac fel y nodir yn nhabl 3 am y rhannau hynny o'r ardal a restrir ynddo.**

## 11 CYNLLUN TWF TERFYNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Prif Weithredwr yn ymgorffori'r dogfennau allweddol sydd raid wrthynt i ddod i Gytundeb Terfynol ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a dywedodd fod y cam hwn yn y Cynnig Bargen Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn benllanw proses hir y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi chwarae rhan lawn ynddi.

Cytunodd y Prif Weithredwr fod hon yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses Bargen Twf sy'n ffrwyth llawer iawn o waith dros gyfnod hir ac sydd hefyd yn dangos gwerth partneriaeth gref yn seiliedig ar gydweithrediad parod a dealltwriaeth rhwng partneriaid ar draws sectorau. Dywedodd fod diolchiadau'n ddyledus i Swyddogion sydd wedi gwasanaethu ar yr ystod o fyrddau a oedd yn datblygu'r Cynnig Twf sydd wedi arwain at yr

achlysur hanesyddol hwn; y gobaith yw y bydd y rhaglen hon o fuddsoddiad economaidd mawr y mae gwir angen amdano yn rhanbarth Gogledd Cymru yn cynhyrchu canlyniadau yn gyflym ar adeg pan fo pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol ar yr economi.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr, wrth gydnabod nad yw cyflogaeth a'r economi wedi'u cyfyngu i ardaloedd awdurdodau lleol a bod pobl a busnesau yn symud ar draws ffiniau, fod cynlluniau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni fwyfwy trwy strwythurau rhanbarthol. Mae cydweithio fel rhanbarth yn hwyluso denu cyllid ychwanegol ar lefel na fyddai'n bosib i'r chwe awdurdod lleol pe byddent yn gweithredu ar wahân ac ar eu pennau eu hunain. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weithredwr at y buddion a'r buddsoddiadau economaidd a ddisgwylir i'r Ynys a'r tir mawr yn sgil y Fargen Twf, sef y rhaglen datblygu economaidd fwyaf a mwyaf arwyddocaol y mae'r rhanbarth wedi'i gweld ers dechrau'r cyfnod o lymder. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi twf mewn sectorau gwerth uchel o ran cyflogaeth a'r farchnad lafur. Rhagwelir creu rhwng 3,000 a 4,000 o swyddi ychwanegol gan gynhyrchu dros £2b o Werth Ychwanegol Gros ychwanegol y disgwylir iddo, yn ei dro, ddenu buddsoddiad o'r sector preifat gwerth £1b. Er bod nifer o brosiectau gweladwy iawn ar yr Ynys ar hyn o bryd ar ffurf Morlais, Porthladd Caergybi a Pharc Gwyddoniaeth Menai, mae yna ystod o brosiectau eraill yn y meysydd tai ac eiddo, TGCh, cludiant cynaliadwy ac ynni gwyrdd y gall yr ynys fanteisio arnynt i ddenu cyllid ychwanegol. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn llais cryf, cynhyrchiol a dylanwadol o fewn y model gweithio rhanbarthol hwn a'r gobaith yw y bydd y Flwyddyn Newydd yn gweld newid o'r cyfnod cynllunio a pharatoi i gyfnod lle bydd yr arian yn dechrau cael ei wireddu a'i wario.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 oblygiadau ariannol y Fargen Twf y mae dwy elfen iddi, sef costau refeniw rhedeg y rhaglen y cytunwyd y byddant yn cael eu rhannu rhwng y chwe awdurdod lleol a'r colegau, gyda Chyngor Ynys Môn yn cyfrannu £90k ynghyd â chynnydd blynyddol ar gyfer chwyddiant. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau cyllid Ewropeaidd sydd wedi helpu i gadw costau i lawr. Mae'r ail elfen yn cynnwys ariannu'r gwariant cyfalaf ar y prosiectau yn y rhaglen - mae bwlch cyllido dros dro tymor canol rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Fargen Twf a phroffil disgwyliedig cyllid a dderbynnir gan y llywodraeth dros 15 mlynedd a fydd yn cael ei reoli trwy fenthyca, h.y, bydd cyllid grant y Llywodraeth yn cael ei rannu dros 15 mlynedd tra bod gwariant ar y prosiectau yn debygol o ddigwydd o fewn y 6 blynedd cyntaf, gan adael bwlch cyllido a fydd yn cael ei bontio trwy fenthyca. Wrth i'r cyllid ddod i mewn bydd y benthyca'n lleihau bob blwyddyn. Mae paragraff 2.5 yr adroddiad yn dangos cyfanswm cyfraniadau'r partneriaid (dros 15 mlynedd) i gwrdd â chost y benthyca gofynnol ar gyfer hwyluso'r llif arian negyddol tra bod paragraff 2.6 yn dangos cyfraniadau blynyddol y partneriaid i gwrdd â chost benthyca gofynnol ar gyfer hwyluso'r llif arian negyddol . Mae'r cyfraniadau hyn yn ychwanegol at y cyfraniadau blynyddol craidd ac atodol a ddangosir ym Mharagraff 2.7 o'r adroddiad (ymhelaethir ar y ffigyrau yn y Cynllun Busnes a atodwyd). Mae amseru yn ffactor o ran benthyca, ynghyd â chyfraddau llog, sy'n golygu y gall y ffigyrau newid; er enghraifft pe bai'r Llywodraeth yn rhyddhau cyllid grant cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon neu'n gynnar yn y flwyddyn nesaf, byddai swm cyfalaf ar gael ar y cychwyn a fyddai felly'n lleihau'r gofyniad benthyca.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y goblygiadau cyfreithiol a'r trefniadau llywodraethu. Dywedodd pan fydd y Fargen Twf Derfynol yn cael ei chytuno a'i llofnodi gyda'r ddwy Lywodraeth y bydd Cytundeb Llywodraethu 2 newydd (CLl2 - a ddarparwyd yn llawn o dan Atodiad 4 gyda chrynodeb o dan Atodiad 3) yn disodli'r CLl1 cyfredol ac yn rheoleiddio'r bartneriaeth rhwng y 6 Chyngor Lleol yng Ngogledd Cymru a'r 4 Coleg trwy gydol cyfnod y Fargen Twf. Bydd y model gwleidyddol yn aros yr un fath ag ar gyfer CLl1, sef Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE) sy'n cynnwys Arweinyddion y 6 Chyngor yng Ngogledd Cymru ac y mae gan bob un ohonynt bleidlais. Bydd y 4 Coleg hefyd yn aelodau o'r BUE ond ni fydd ganddynt bleidlais

gan fod y BUE yn gyd-bwyllgor statudol. Bydd Arweinydd o bob un o'r 6 Chyngor yn cael eu penodi 'n Gadeirydd bob blwyddyn ond ni fydd ganddynt bleidlais fwrw. Os bydd anghytundeb ynghylch unrhyw eitem ar raglen y BUE bydd cyfnod cnoi cil a bydd yr eitem yn dychwelyd wedyn i'r BUE i'w hystyried ymhellach. Os na all y BUE ddod i gytundeb wedyn bydd y cynnig yn disgyn. Oherwydd y model cyd-bwyllgor statudol y cytunwyd arno gan y partïon, bydd y rhaglenni, yr adroddiadau a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ac ar gael ar wefan y Cyngor.

O ran gweithredu, bydd y model Awdurdod Cynnal mewn grym fel y cytunwyd gan y partneriaid; Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod cynnal a bydd yn cyflawni swyddogaethau Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro yn ogystal â gwasanaethau AD, Archwilio a TGCh. Bydd y BUE yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog a Rheolau Caffael Cyngor Gwynedd. Mae unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Busnes Cyffredinol, ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r CLl2, materion cyllidebol ac unrhyw bartneriaid sy'n ceisio gadael y BUE oll yn faterion a gedwir yn ôl a bydd angen i'r Cyngor llawn eu hystyried a'u cymeradwyo. Bydd yr aelodau etholedig ar y BUE yn dilyn eu Côd Ymddygiad Aelodau yn yr un modd ag y bydd Swyddogion a fydd yn gweithio i'r BUE yn dilyn eu côd hwythau. Bydd Polisi Gwrthdaro mewn grym ar gyfer cynrychiolwyr y Colegau gan nad oes ganddyn nhw Gôd Ymddygiad penodol. Bydd cofnodion penderfyniadau'n cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi a chyflwynir adroddiad chwarterol i bob partner a fydd yn adrodd ar gynnydd prosiectau unigol gan gynnwys eu perfformiad ariannol. Mae amodau'r Fargen Twf hefyd yn golygu bod rhaid cyflwyno adroddiad i Lywodraethau Cymru a San Steffan a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd. Nodir y trefniadau craffu yn Atodlen 3 CLl2 a bydd gweithdrefn galw i mewn ar waith sy'n debyg i'r un a weithredir yn y Cyngor.

Adroddodd y Cynghorydd G.O. Jones o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd ac a ystyriodd y Cynnig Bargen Twf Terfynol a lle cafwyd cyngor gan ddau gynrychiolydd o'r BUE. Trafodwyd y trefniadau ariannol, cyfreithiol a llywodraethu ac amlinellwyd y buddion a'r cyfleoedd economaidd sy'n debygol o ddeillio i Ynys Môn o'r Fargen Twf. Wrth ystyried y mater, roedd y Pwyllgor wedi codi goblygiadau Brexit a Covid 19 o ran addasiadau y gallai fod angen i'r BUE eu gwneud a cheisiodd eglurhad o ran aelodaeth y BUE ac, yn benodol, absenoldeb cynrychiolaeth o'r Undebau Llafur. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder hefyd ar y camau i'w cymryd pe bai gorwariant ar brosiect. Ar ôl derbyn sicrwydd ar y materion hyn, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r Cytundeb Cynnig Bargen Twf Terfynol.

Rhoddodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei bersbectif fel Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd a chroesawodd y cydweithrediad rhanbarthol a oedd yn sail i'r Cynnig Bargen Twf ac a oedd wedi'i wneud yn bosib, a chydnabu hefyd waith Swyddogion yn symud y Fargen ymlaen trwy wahanol gamau. Mae'r Cytundeb yn cynnig cyfleoedd ar raddfa na fyddai ar gael i'r awdurdodau pe baent yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn cynnig y gobaith o adfywiad economaidd ar gyfer Ynys Môn yn ogystal â'r rhanbarth ar adeg dyngedfennol.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Gwaith –**

- **Yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn argymell bod y Cyngor Llawn yn ei gymeradwyo.**
- **Yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 mewn perthynas â'r swyddogaethau gweithredol, ac yn argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r darpariaethau mewn perthynas â swyddogaethau anweithredol, a'i fod yn benodol yn mabwysiadu'r dirprwyaethau a'r Cylch Gorchwyl yng "Nghytundeb**

**Llywodraethu 2: Atodiad 1" ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraeth Cymru.**

- **Yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor Llawn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid.**
- **Yn cymeradwyo'n ffurfiol ac yn argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gost benthyca sydd ei angen er mwyn hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf ac i gynnwys darpariaeth o fewn cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau craidd ac atodol sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Llywodraethu 2 (GA2) (ac ym mharagraffau 2.5 - 2.7 yr adroddiad).**
- **Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn derbyn awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.**

## 12 CYNLLUN PEILOT CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – ANABLEDDAU DYSGU CYNGOR SIR YNYS MÔN A BWRDD IECHYD

*Oherwydd bod gan yr Arweinydd ymrwymiad arall, y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-Gadeirydd, a gadeiriodd y cyfarfod am yr eitem hon a'r eitem ddilynol.*

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo ymrwymo i gynllun peilot ar gyfer cronfa gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y gyllideb byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yn Ynys Môn.

Amlinellwyd y cefndir gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, gan nodi bod y Cyngor yn bartner allweddol yn Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu - y Gogledd. Bydd cymeradwyo'r cynllun peilot arfaethedig yn golygu y gall y Cyngor wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni mesurau perfformiad allweddol yn llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru, sef rhaglen y mae'r Strategaeth Anabledd Dysgu yn sylfaen iddi. Mae cronfeydd cyfun yn weithdrefn i sicrhau mwy o integreiddio o ran cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ac ystyrir ei bod yn arbennig o effeithiol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Mae'r weithdrefn gyfredol ar gyfer sicrhau cyllid iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i oedolion ag anableddau dysgu yn cynnwys dwy broses nad ydynt wedi'u halinio'n dda â'i gilydd. Y rhesymeg dros dreialu cronfa gyfun yw profi a gwerthuso a yw integreiddio'r prosesau hyn yn arwain at wasanaethau a chanlyniadau o ansawdd gwell i unigolion tra hefyd yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth.

O ran goblygiadau gweithredol y cynllun peilot arfaethedig, dywedodd y Swyddog y byddai cytundeb statudol Adran 33 yn cefnogi'r gronfa gyfun, ac y byddai'r cyfryw gytundeb yn amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd, strwythurau rheoli, mesurau sicrhau perfformiad a sicrhau ansawdd, strwythurau llywodraethu ariannol a llywodraethu prosiectau. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn cyfuno ymrwymiadau ariannol presennol y ddwy asiantaeth ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yn Ynys Môn - 36 achos ar hyn o bryd. Cyfanswm y gwariant cyfredol ar gyfer BIPBC a'r Cyngor yw £3,166,201.87 - sef £1,346,723.81 i Iechyd a £1,819478.06 i'r Cyngor. Bydd Rhaglen Trawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn gwneud cyfraniad ariannol i'r gronfa gyfun unwaith y bydd y cynllun peilot yn weithredol er mwyn cynorthwyo i gyflawni yn y cyfnod cychwynnol. Er na fydd y goblygiadau ariannol i'r Cyngor a BIPBC yn cynyddu o ganlyniad i'r cynllun peilot, efallai y bydd raid cyfrannu at godiadau yn y maes byw â chymorth blynyddol a'r maes anghenion cymorth gofal iechyd i unigolion fel y byddai'n digwydd waeth beth fo'r cynllun peilot. Bydd y gronfa gyfun yn cael ei dal a'i rheoli gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran y partneriaid a bydd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl yn dod yn rheolwr y gronfa gyfun sy'n gyfrifol am ddefnydd effeithiol o'r gronfa gyfun yn unol â'r Cytundeb adran 33.

Ar ôl ei lofnodi bydd y cytundeb mewn grym am un flwyddyn galendr ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw bydd yn destun adolygiad strategol ac ariannol gan Fwrdd Rheoli Partneriaeth sydd i'w sefydlu ar gyfer y cynllun peilot.

Rhoddodd y Cynghorydd G O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio atborth o gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd, 2020 a oedd wedi ystyried y cynnig a dywedodd fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro ar nodau'r cynllun peilot ac amcanion cyflwyno cronfa gyfun. Esboniwyd y cefndir deddfwriaethol i'r Pwyllgor ac amlinellwyd y trefniadau llywodraethu. Nododd y Pwyllgor fod dadansoddiad risg wedi ei gynnal ar gyfer y prosiect ac y byddai'n destun proses adolygu flynyddol gan Fwrdd Rheoli Partneriaeth. Roedd y Pwyllgor wedi codi cwestiynau ynghylch y gwerth ychwanegol yn sgil ymuno â'r cynllun peilot ac wedi gofyn a fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau a dderbynnir gan y 36 unigolyn y bydd y cynllun peilot yn berthnasol iddynt. Roedd y Pwyllgor wedi ceisio darganfod ymhellach a oedd unrhyw fentrau cyllido cyfun tebyg mewn grym ar hyn o bryd yng Nghymru a / neu Loegr ac a ydynt yn llwyddiannus. Ar ôl derbyn sicrwydd ar yr holl faterion a godwyd, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell y prosiect cronfa gyfun arfaethedig i'r Pwyllgor Gwaith.

Gan nodi sylwadau’r Pwyllgor Sgriwtini, roedd y Pwyllgor Gwaith yn gefnogol i’r cynllun.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn a nodi cynnwys Cynllun Peilot drafft Cyflenwi Gwasanaeth ar y Cyd (Cyllideb Gyfun) Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Anableddau Dysgu**
- **Cymeradwyo treialu cronfa gyfun rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gyflwynir gam wrth gam, ar gyfer y gyllideb byw â chymorth bresennol ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu sy’n byw ar Ynys Môn ac sy’n cael eu cyllido ar y cyd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu cytuno ar gymeradwyo cam 1 yn y lle cyntaf.**
- **Bod adran Gyfreithiol CSYM yn darparu barn annibynnol parthed y cytundeb Adran 33.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo i’r Swyddog Monitro yr hawl i gwblhau’r cytundeb adran 33 ac i’r Swyddog 151 yr hawl i gytuno’r trefniadau ariannol gyda BIPBC i sicrhau fod yr arian yn cael ei rheoli’n gywir ac yn effeithiol.**

## 13 DIWYGIO'R BROSES GYFANSODDIADOL MEWN PERTHYNAS Â PHENNU CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â diwygio'r broses Gyfansoddiadol mewn perthynas â gosod cyllideb y Cyngor

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor y cynigir gofyn i'r Cyngor gytuno i ddiwygio'r Cyfansoddiad fel bod hyblygrwydd wedi'i ymgorffori yn yr amserlen gyfansoddiadol mewn perthynas â'r broses gosod cyllideb. Gwneir y cais yn dilyn cadarnhad y bydd y setliadau dros dro a therfynol i Lywodraeth Leol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi’n hwyr eto fel yn 2020/21. Bryd hynny, cytunodd y Cyngor i atal paragraff 4.3.2.2.8 o'r Cyfansoddiad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith lai na phythefnos cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r gyllideb flynyddol ar 10 Mawrth, 2020. Roedd yr oedi mewn perthynas â chyhoeddi'r setliad yn golygu y bydd angen diwygio'r broses gosod cyllideb unwaith eto ar gyfer cyllideb 2021/22 gan na fydd yn ymarferol bosib dilyn yr amserlen a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae diwygio'r Cyfansoddiad fel bod hyblygrwydd wedi'i

ymgorffori yn yr amserlen gyfansoddiadol yn golygu bod yr hyblygrwydd hwn ar gael wedyn pe bai'n rhaid i'r Cyngor addasu'r broses gosod cyllideb am resymau y tu hwnt i'w reolaeth fel yn 2020/21, fel sy'n ofynnol ar gyfer 2021/22, a phe bai sefyllfa debyg yn codi yn y blynyddoedd i ddod.

**Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn cytuno -**

- **Bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 9 yr adroddiad, a**
- **Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r diwygiadau a gymeradwywyd yn y pwynt bwled uchod.**

**Cynghorydd Llinos Medi (eitemau 1  11)**
**(Cadeirydd)**
**Cynghorydd Ieuan Williams (eitemau 12 i 13)**
**(Cadeirydd)**